

Llywodraeth Cymru  
**Astudiaeth Rhanbarthau ac  
Ardaloedd Gwledig y FfDC**  
Adroddiad SWOT Rhanbarthol

Cyhoeddi | 13 Mawrth 2019

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient.

Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti ac ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno ac nid ymgwymerir â chyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.

Rhif gwaith 264350-00

**Ove Arup & Partners Ltd**  
4 Stryd Pierhead  
Capital Waterside  
Caerdydd CF10 4QP  
Y Deyrnas Unedig  
[www.arup.com](http://www.arup.com)



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**ARUP**



# Cynnwys

---

	Page	
<b>1</b>	<b>Cyflwyniad</b>	<b>3</b>
1.1	Cyd-destun y FfDC	3
1.2	Ymagwedd	4
1.3	Yr Adroddiad hwn	6
<b>2</b>	<b>Ymagwedd at SWOT</b>	<b>8</b>
2.1	Trosolwg	8
2.2	Gwirio Data	8
2.3	Dulliau gweithio	9
<b>3</b>	<b>Canlyniadau SWOT</b>	<b>11</b>
<b>4</b>	<b>Rôl y FfDC</b>	<b>22</b>
4.1	Ymagwedd	22
4.2	Cydberthynasau	22
<b>5</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>33</b>
5.1	Trosolwg	33
5.2	Beth allai'r FfDC ei nodi	34
5.3	Pa faterion ac ardaloedd gofodol ddylai'r FfDC ganolbwyntio arnynt	34
5.4	Sut ddylai'r FfDC gefnogi datblygu polisi	37

## Ffigurau

Ffigur 1 Rhanbarthau'r FfDC

Ffigur 2 Llinell Amser y FfDC

## Atodiadau

### ATODIAD A


Canlyniadau SWOT

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Cyd-destun y FfDC

Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) yn haf 2018<sup>1</sup>, mae Llywodraeth Cymru bellach wrthi'n datblygu'r FfDC Drafft a bwriedir cynnal ymgynghoriad ym mis Gorffennaf 2019.

Fel yr amlinellwyd yn yr Opsiwn a Ffefrir, bwriedir i'r FfDC gynnwys polisiâu cenedlaethol a rhanbarthol ar draws y rhanbarthau diffiniedig. Bydd y tri rhanbarth yn cwmpasu Gogledd, Canolbarth a De-orllewin a De-ddwyrain Cymru fel y dangosir yn Ffigur 1.




Ffigur 1 Rhanbarthau'r FfDC

<sup>1</sup> <https://llyw.cymru/fframwaith-datblygu-cenedlaethol-y-prif-faterion-opsiynau-ar-opsiwn-a-ffefrir>

Mae hyn yn adlewyrchu'r rhanbarthau a nodwyd gan Gynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar yr Economi. Mae Prif Swyddogion Rhanbarthol wedi'u penodi ar gyfer pob rhanbarth ac maent wedi dechrau ar waith i ddatblygu ymagwedd Llywodraeth Cymru at wella gweithio a chyflawni'n rhanbarthol. Mae'r Ddeddf Cynllunio yn hwyluso'r ymagwedd hon, ac yn darparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer paratoi Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) yn rhanbarthol.

O safbwynt rhanbarthol, mae rôl y FfDC yn cynnwys cefnogi cyflawni polisiau rhanbarthol Llywodraeth Cymru a chynllunio / cydweithredu strategol gwell rhwng Awdurdodau Cynllunio Lleol Cymru (ACLLau).

Dangosir y rhaglen ar gyfer y FfDC yn Ffigur 2 isod, gydag ymgynghoriad ar y FfDC Drafft wedi'i gynllunio ar gyfer mis Gorffennaf i Fedi 2019, ac ystyriaeth gan y Cynulliad o'r Drafft rhwng mis Ebrill a Mehefin 2020.



Ffigur 2 Llinell Amser y FfDC

## 1.2 Ymagwedd

Yr amcanion ar gyfer yr Astudiaeth Ymchwil Rhanbarthau ac Ardaloedd Gwledig hon yw:

- Datblygu sylfaen dystiolaeth ar gyfer pob rhanbarth y FfDC sy'n cefnogi datblygu polisiau'r FfDC a defnyddio hyn, i nodi'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisiau'r FfDC ganolbwyntio arnynt;
- Nodi ardaloedd gwledig cyffredinol a datblygu sylfaen dystiolaeth sy'n cefnogi datblygu polisiau'r FfDC a defnyddio hyn, i nodi'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisiau'r FfDC ganolbwyntio arnynt; a
- Chynnwys rhanddeiliaid yn a a b.

Er mwyn helpu cyflawni amcanion yr astudiaeth, cynhyrchodd Ove Arup & Partners (Arup), a gomisiynwyd i gynnal yr Astudiaeth hon, gyfres o adroddiadau sy'n mynd i'r afael â'r gofynion ar gyfer yr astudiaeth. Crynhoir y rhain yn Nhabl 1 isod:

Tabl 1 Ymagwedd ac Adroddiadau'r Astudiaeth

Allbwn	Adroddiadau	Cynnwys
<b>Trosolwg o'r Astudiaeth</b>	1. Trosolwg o'r Astudiaeth	a) Cyd-destun y FfDC, diben yr astudiaeth a'r adroddiadau, cyfraniad Arup
<b>Adroddiad Data a Diffiniadau</b>	2. Adroddiad Data a Diffiniadau	b) Cyflwyniad, gan gynnwys y cyd-destun, diben yr astudiaeth a'r adroddiadau, a'r strwythur c) Casglu data, gan gynnwys ymagwedd, dull, cydweithio, canfyddiadau, adborth gan randdeiliaid, sut y defnyddiwyd data yn yr ymchwil gyda thablau a mapiau ch) Diffinio 'Mawr' – gan gynnwys safleoedd cyflogaeth, safleoedd manwerthu/masnachol, gorsafoedd cynhyrchu a chynlluniau trafniadaeth d) Diffinio a mapio aneddiadau allweddol dd) Rhanbarthau cydffiniol yn Lloegr e) Diffinio Ardaloedd Gwledig f) Ystyried y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ff) Crynodeb o'r Astudiaeth
<b>Adroddiadau Gweithdy</b>	3. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – Gogledd Cymru 4. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – Canolbarth a De-orllewin Cymru 5. Adroddiad Gweithdy Rhanbarthol – De-ddwyrain Cymru 6. Adroddiad Gweithdy Gwledig – Gogledd Cymru 7. Adroddiad Gweithdy Gwledig – Canolbarth a De-orllewin Cymru 8. Adroddiad Gweithdy Gwledig – De-ddwyrain Cymru	g) Yr ymagwedd at gynnwys rhanddeiliaid ng) Trefniadau a mynychwyr y gweithdai h) Canlyniadau gweithgareddau i) Crynodeb o'r adborth gan randdeiliaid
<b>Adroddiadau SWOT<sup>2</sup></b>	9. Adroddiad SWOT Rhanbarthol 10. Adroddiad SWOT Gwledig	l) Yr ymagwedd at SWOT ll) Adborth gan randdeiliaid m) Dilysu data n) Dadansoddiad SWOT o) Rôl y FfDC wrth gefnogi a mynd i'r afael â SWOT, gan ystyried

<sup>2</sup> Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT)

cyberthnasoedd a ffyrdd o weithio

- p) Crynodeb o'r hyn y dylai'r FfDC ei wneud i gefnogi / mynd i'r afael â SWOT mewn rhanbarthau ac ardaloedd gwledig

Fel cyfres o ddogfennau, dylid darllen yr Adroddiad Data a Diffiniadau ochr yn ochr â'r adroddiadau Gweithdai ac Adroddiadau SWOT cysylltiedig er mwyn cael dealltwriaeth gynhwysfawr o ganlyniadau a chanfyddiadau'r ymchwil.

Mae'r holl allbynnau sy'n cynnwys y gyfres o adroddiadau ar gyfer yr astudiaeth yn darparu cyd-destun, diben a chroesgyfeiriad at ei gilydd, fel bo'n briodol.

Yn benodol, mae'r Adroddiad Data a Diffiniadau yn esbonio'r ymagwedd at yr astudiaeth ac adroddiadau yn glir, gan roi trosolwg o'r allbynnau gyda'i gilydd fel bo'r gofyn.

Cyhoeddwyd adroddiadau'r astudiaeth ar wefan y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru ar wahân ac ochr yn ochr â'i gilydd<sup>3</sup>.

### 1.3 Yr Adroddiad hwn

Drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a chasglu data, helpodd yr astudiaeth i sefydlu sylfaen dystiolaeth o'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau (SWOT) o fewn pob rhanbarth (ac sy'n gyffredin i'r rhanbarthau hynny), yn ogystal ag ardaloedd gwledig.

Mae dau Adroddiad SWOT ar wahân wedi'u paratoi, fel a ganlyn:

1. Adroddiad SWOT Rhanbarthol; ac
2. Adroddiad SWOT Gwledig.

Mae'r Adroddiad SWOT Rhanbarthol hwn yn amlinellu canlyniadau perthnasol ymgysylltu â rhanddeiliaid, gwirio data ac yn cyflwyno'r SWOT a'r dadansoddiad mewn perthynas â meysydd ymyrraeth polisi priodol a graddfeydd gofodol (e.e. cynllunio ar lefel genedlaethol, rhanbarthol, lleol neu gymunedol). Mae'n dod ag ystod o ddata a gwybodaeth ynghyd ar gyfer pob un o'r tri rhanbarth, gan gyflwyno hyn ar ffurf tablau ac yn ofodol.

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried beth all y FfDC ei wneud i gefnogi a mynd i'r afael â'r SWOT. Yn bwysig, yn ogystal â chefnogi datblygu'r FfDC Drafft, bydd canlyniadau'r ymchwil hon yn cael eu defnyddio hefyd i gefnogi datblygu CDSau, CDLlau a CDLlau ar y cyd.

Cyflwynir yr Adroddiad SWOT Rhanbarthol hwn yn yr adrannau canlynol:

<sup>3</sup> <https://gweddill.gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/?skip=1&lang=cy>

- Mae Rhan 2 yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r trafodaethau SWOT ar draws tri Rhanbarth y FfDC;
- Mae Rhan 3 yn rhoi dadansoddiad SWOT ac yn ystyried materion sy'n berthnasol i'r FfDC sy'n datblygu;
- Mae Rhan 4 yn darparu argymhellion ar gyfer y FfDC yng ngolau'r dadansoddiad SWOT; ac
- Mae Rhan 5 yn rhoi crynodeb gydag argymhellion.

Mae Atodiad A yn cyflwyno tabl estynedig o'r materion SWOT a godwyd mewn trafodaethau gweithdai, i gynnwys y rheiny yr ystyrir eu bod y tu allan i gylch gwaith y FfDC.



## 2 Ymagwedd at SWOT

---

### 2.1 Trosolwg

Mae'r rhan hon o'r Adroddiad yn ystyried canlyniadau'r gweithdai rhanddeiliaid (gweler yr Adroddiad Gweithdai i gael y canlyniadau llawn), ac mae'n nodi'r Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau ar gyfer tri Rhanbarth Cymru.

Mae Rhan 3 yn rhoi crynodeb lefel uchel o'r SWOTau ac yn cynnwys ystod o faterion sy'n rhychwantu pob graddfa a maes polisi.

Fel y mynnir gan y comisiwn, mae'r materion hyn wedi'u didoli er mwyn darparu ffocws ar gyfer y FfDC, ac mae'r meysydd polisi hynny yr ystyrir eu bod yn briodol i'w hystyried o fewn y FfDC wedi'u nodi felly yn y canlyniadau SWOT isod. Mae'r meini prawf sydd wedi llywio'r broses ddiidoli hon yn cynnwys:

- a) P'un a yw'r mater / maes polisi yn ystyriaeth gynllunio;
- b) P'un a oes ymyrraeth cynllunio gofodol / polisi (e.e. nad yw'n fater o gyllido / hyfywedd ariannol yn unig);
- c) P'un ai ar y raddfa ranbarthol / genedlaethol yr ystyrir y mater / maes polisi orau (gan ystyried hefyd canlyniadau cyfraniadau'r gweithdai rhanddeiliaid ar y testun hwn); a
- ch) Ph'un a oes menter neu broses yn bodoli'n barod a fyddai'n mynd i'r afael â'r mater (e.e. rhwymedigaethau cynllunio).

Er mwyn darparu dull cyson o ddsbarthu, mae Cryfderau a Gwendidau yn gymwys i'r sefyllfa gyfredol (waelodlin), tra bod Cyfleoedd a Bygythiadau yn gymwys i safbwyntiau'r dyfodol.

Ar gyfer pob un o'r testunau yr ystyrir eu bod yn gryfderau neu'n wendidau (h.y. materion cyfredol), gwnaed sylwadau o ran ble yr eir i'r afael â chryfderau neu wendidau, neu eu cefnogi neu gyflawni, y tu allan i'r cylch gwaith cynllunio.

Er mwyn osgoi dyblygu diangen ac o ystyried persbectif cyfleoedd a bygythiadau yn y dyfodol, ni ystyrir bod sylwebaeth debyg yn berthnasol ac felly nid yw wedi'i darparu.

### 2.2 Gwirio Data

Yn ychwanegol at y dadansoddiad SWOT a luniwyd drwy'r digwyddiadau gweithdai, mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried hefyd sut mae'r dadansoddiad hwn yn cymharu â'r data a gasglwyd fel rhan o'r comisiwn changach<sup>4</sup>.

Mae'r sylwebaeth yn y tablau yn Rhan 3 yn nodi felly ble mae data yn gwrthdaro â, neu'n ategu'r tueddiadau / barnau sy'n dod i'r amlwg o'r SWOT. Nid yw hyn

---

<sup>4</sup> Nid yw data y tu hwnt i gwmpas y comisiwn wedi'i gasglu i lywio'r broses wirio hon.

yn benodol nac yn fanwl, ond gellir gweld y data a gasglwyd yn Adroddiad yr Astudiaeth.

Lle nad yw cryfderau, gwendidau, cyfleoedd neu fygythiadau sy'n gysylltiedig â thestunau penodol wedi'u codi'n benodol gan randdeiliaid mewn un neu fwy o'r tri rhanbarth, ond lle mae data i'w gael i helpu egluro safbwynt, mae sylw wedi'i ddarparu.

## 2.3 Dulliau gweithio

Un pwynt allweddol a godwyd yn ystod trafodaethau'r rhanddeiliaid oedd yr angen i'r FfDC adlewyrchu ac ysgogi'r dulliau gweithio a eiriolwyd yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae materion allweddol ar gyfer y FfDC i'w hystyried yn cynnwys:

### Hirdymor

Dylai'r FfDC gyflwyno gweledigaeth ar gyfer y Gymru a garem, gan feddwl yn yr hirdymor. Mae angen i flaenoriaethau ar gyfer twf, buddsoddi a gwneud penderfyniadau strategol mewn perthynas â sectorau a newid gael eu hamlinellu'n glir. Rhaid i'r safbwynt cynllunio gofodol a pholisi ysgogi gweledigaeth glir ar gyfer newid – gan gyfleu sut fydd ymyriadau polisi yn effeithio ar Gymru a'i rhanbarthau yn y pen draw (e.e. aneddiadau twf, seilwaith trafndiaeth a newidiadau i'r dirwedd). Bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael ag anghenion a heriau presennol mewn ffordd sy'n diogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor.

### Atal

Dylai'r FfDC ddarparu cyfeiriad clir o ran yr ymyriadau polisi sydd eu hangen i atal problemau cyfredol a'r rheiny a ragwelir yn y dyfodol rhag digwydd neu waethygu. Er enghraifft, dylai'r FfDC fod yn glir ynghylch y cyfeiriad teithio ar gyfer yr agenda datgarboneiddio, yn gysylltiedig â chynllunio gofodol a datblygu polisi mewn perthynas â themâu cysylltiedig, yn cynnwys trafndiaeth ac ynni.

### Cynnwys

Dylai'r FfDC annog cyfranogiad gan randdeiliaid yn gynnar yn y broses datblygu polisi a phrosiectau, er mwyn helpu sicrhau bod y system gynllunio yn adlewyrchu anghenion (gwahanol weithiau) y boblogaeth ledled Cymru a'i rhanbarthau.

### Cydweithio

Dylai'r FfDC annog cydweithio rhwng rhanddeiliaid allweddol (y sector preifat a chyhoeddus), y rhai sy'n gwneud penderfyniadau a chyrff cyflawni yn gynnar er mwyn helpu cyflawni amcanion polisi tymor hir Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid. Mae hyn yn bwysig i helpu mynd i'r afael â llawer o'r rhwystrau ac anghenion nad ydynt yn ymwneud â chynllunio, fel cyllido, hyfywedd a'r gallu i gyflawni. Bydd hyn yn cefnogi'r gallu hefyd i greu arloesedd a rhannu arfer gorau ar draws sectorau (e.e. modelau cyllido a chyflawni).

### Integreiddio

Dylai'r FfDC wneud yn siŵr bod meysydd polisi'n cael eu hystyried yn eu cyfanrwydd, gan gydnabod pwysigrwydd gweithio traws-sector a natur gydberthynol cynllunio.

### 3 Canlyniadau SWOT

Mae'r rhan hon yn amlinellu canlyniadau'r SWOT.

#### 3.1.1 Crynodeb o'r materion allweddol

Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd sy'n berthnasol i bob un o dri rhanbarth y FfDC, gan gynnwys materion a godwyd yng nghydestun trafodaethau rhanddeiliaid.

Mae'r Adroddiadau Gweithdai yn rhoi adroddiad llawn am adborth rhanddeiliaid o'r digwyddiadau a gynhaliwyd ym mhob rhanbarth.

Caiff dadansoddiad o faterion sy'n benodol i ranbarthau Gogledd Cymru, Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru eu cynnwys felly yn yr Adroddiadau Gweithdy priodol ar gyfer pob rhanbarth. Mae Adroddiad yr Astudiaeth – Data a Diffiniadau yn ystyried yr holl ymgysylltu â rhanddeiliaid a wnaed fel rhan o'r ymchwil, yn ogystal â data a gasglwyd a'r gwaith cysylltiedig o'i ddadansoddi.

Er y gallai'r materion allweddol hyn, mewn rhai achosion, rychwantu categorïau SWOT (h.y. gellid gweld cyfle fel bygythiad hefyd), maent wedi'u dosbarthu fel cryfder, gwendid, cyfle neu fygythiad at ddibenion eglurder cyflwyno.

Tabl 2 Crynodeb o'r Materion Allweddol

Cryfderau		Gwendidau	
<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwasanaethau bws gwledig</li> <li>Hamdden, y rhwydwaith teithio llesol a hawliau tramwy cyhoeddus</li> <li>Twristiaeth</li> <li>Y Gymraeg</li> <li>Safleoedd diwydiannol / cyflogaeth</li> <li>Y diwydiant dur</li> <li>Amaethyddiaeth</li> <li>Biowyddorau</li> <li>Gwasanaethau proffesiynol</li> <li>Mentrau busnes a BBaChau</li> <li>Ansawdd bywyd</li> <li>Amgylchedd Naturiol/Adeiledig</li> <li>Chwaraeon ac Adloniant</li> <li>Rhwydwaith trafnidiaeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Ysbryd cymunedol</li> <li>Amrywiaeth pobl a diwylliant</li> <li>Safleoedd tai a phrisiau</li> <li>Cysylltedd digidol</li> <li>Prifysgolion a cholegau</li> <li>Cysylltiadau trawsffiniol â Lloegr, Iwerddon a thu hwnt</li> <li>Sector ynni</li> <li>Mwynau</li> <li>Porthladdoedd a Meysydd Awyr</li> <li>Sector awyrofod</li> <li>Sector manwerthu</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Tai yn erbyn angen</li> <li>Trafnidiaeth gyhoeddus</li> <li>Argaeledd tir a hyfywedd</li> <li>Cyllid Llywodraeth</li> <li>Tlodi tanwydd</li> <li>Effeithlonrwydd ynni</li> <li>Amddifadedd</li> <li>Seilwaith iechyd</li> <li>Cydbwysedd cymunedau</li> <li>Allfudo</li> <li>Y Gymraeg</li> <li>Tanwerthu</li> <li>Cysylltedd</li> <li>Amaethyddiaeth</li> <li>Cystadleuaeth ar Draws y Ffin</li> <li>Dibyniaeth ar AU</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>Economi'r nos</li> <li>Sylfaen sgiliau / prentisiaethau</li> <li>Safleoedd cyfyngedig</li> <li>Safleoedd gwag</li> <li>Pellter / cymudo allan</li> <li>Ail gartrefi</li> <li>Ansawdd aer / traffig</li> <li>Yr amgylchedd fel ataliwr</li> <li>Cysylltiadau'r Gogledd/De</li> <li>Tagfeydd</li> <li>Datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd</li> <li>Cloddio am fwynau a glo</li> </ul>

		<ul style="list-style-type: none"> <li>• Manwerthu ar-lein</li> <li>• Swyddi – dewis, cyflog, tymhorol</li> <li>• System gynllunio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Rheoli gwastraff</li> <li>• Argaeledd Tir ALI</li> <li>• Gwleidyddiaeth mewn cynllunio</li> </ul>
--	--	---	--

Cyfleoedd		Bygythiadau	
<ul style="list-style-type: none"> <li>• Y Gymraeg</li> <li>• Darpariaeth tai preifat a chyhoeddus</li> <li>• Ymgysylltu â chymunedau wrth ddatblygu</li> <li>• Tai fforddiadwy a thir cyhoeddus</li> <li>• Tai cynaliadwy / gwyrdd</li> <li>• Swyddi a chyfleoedd cyflogaeth newydd i hwyluso twf</li> <li>• Hygyrchedd porthladdoedd</li> <li>• Rhwymedigaethau cynllunio</li> <li>• Hunanariannu / hunanadeiladu</li> <li>• Twristiaeth / hamdden</li> <li>• Economi ddigidol</li> <li>• Yr amgylchedd a ffyrdd iach o fyw</li> <li>• Ysgolion Cymraeg</li> <li>• Gwerthoedd tir is</li> <li>• Brandiau ansawdd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Addysg, sgiliau a phrentisiaethau</li> <li>• Bargeinion Dinesig</li> <li>• Ynni/ Ynni adnewyddadwy</li> <li>• BBaCh/Mentrau cymdeithasol</li> <li>• Canolfannau tref/ mannau â diben newydd</li> <li>• Gwasanaethau'r Llywodraeth</li> <li>• Newid moddol / trafniadaeth gyhoeddus</li> <li>• SDCau a Rheoli amgylcheddol</li> <li>• Tir a ddatblygwyd o'r blaen/Tir llwyd</li> <li>• Data mawr</li> <li>• Mwynau/gwastraff</li> <li>• Economi gylchol</li> <li>• Seilwaith gwyrdd</li> <li>• Cynllunio morol</li> <li>• Asedau treftadaeth</li> <li>• Diddymu tollau'r Hafren</li> <li>• Poblogaeth sy'n heneiddio</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cadw sgiliau</li> <li>• Y Gymraeg / treftadaeth ddiwylliannol</li> <li>• Tueddiadau poblogaeth a'r galw am wasanaethau</li> <li>• Amaethyddiaeth</li> <li>• Tai fforddiadwy</li> <li>• Poblogaeth sy'n heneiddio</li> <li>• Twristiaeth</li> <li>• Pobl ifanc</li> <li>• Teithio llesol / hawliau tramwy cyhoeddus</li> <li>• Ail gartrefi</li> <li>• Sgiliau / staff</li> <li>• Awtoimeiddio</li> <li>• Ansawdd / dewis swyddi</li> <li>• Brexit</li> <li>• Cyllid Llywodraeth</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Stalled sites / viability</li> <li>• Effeithiau ar yr amgylchedd</li> <li>• Gwasanaethau ar-lein</li> <li>• Perygl llifogydd ac ansawdd dŵr</li> <li>• Newid hinsawdd</li> <li>• Rhwydwaith trafniadaeth</li> <li>• Twristiaeth a'r amgylchedd</li> <li>• Amaethyddiaeth</li> <li>• Gwastraff</li> <li>• Cyfyngiadau tir</li> <li>• Cysylltedd</li> <li>• Atebolrwydd wrth wneud penderfyniadau</li> </ul>

### 3.1.2 Materion SWOT a'r FfDC

Mae'r materion allweddol yr ystyrir eu bod yn berthnasol i rôl y FfDC wedi'u hamlinellu yn Nhabl 3 i Dabl 6 isod. Mae pob mater yn cyfeirio at ranbarth y FfDC y'i codwyd ynddo, ochr yn ochr â ble mae'r data a gasglwyd yn ategu neu'n gwrthdaro â'r mater penodol. Gwneir sylw cryno hefyd ynglŷn â'r modd y dylid mynd i'r afael â'r mater a/neu sut ddylid ei gyflawni y tu allan i gylch gwaith cynllunio gofodol.

Ceir crynodeb estynedig a dadansoddiad dyfnach o'r materion hyn mewn perthynas â rôl y FfDC yn Adran 3.2; mae hyn yn cynnwys manylion cynnwys y raddfa ofodol, ffocws polisi, gofynion seilwaith ar gyfer pob mater a godwyd.

Mae Atodiad A yn cyflwyno tabl estynedig o'r materion SWOT a godwyd yn nhrafodaethau'r gweithdai, yn cynnwys y rheiny yr ystyrir eu bod y tu allan i gylch gwaith y FfDC.

Tabl 3 Materion SWOT a'r FfDC - Cryfderau

## Cryfderau

Cryfder	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru	Gwirio Data	Rôl gan y FfDC	Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith Cynllunio
Hamdden, rhwydwaith teithio llesol a Hawliau Tramwy Cyhoeddus	Oes	Oes		Mae data'n dangos bod gan ranbarth De-ddwyrain Cymru rwydwaith teithio llesol a Hawliau Tramwy Cyhoeddus hefyd	<b>Oes</b>	Cynnal a chadw a rheoli.
Twristiaeth	Oes	Oes		Mae data'n dangos bod twristiaeth yn sector pwysig hefyd yn Ne-ddwyrain Cymru	<b>Oes</b>	Hyrwyddo ac ariannu ar lefel genedlaethol a lleol.
Y Gymraeg	Oes			Mae data'n dangos bod gan Ganolbarth a De-orllewin Cymru boblogaeth sylweddol o siaradwyr Cymraeg hefyd	<b>Oes</b>	Hyrwyddo ac ariannu ar lefel genedlaethol a lleol.
Diwydiant a safleoedd cyflogaeth	Oes		Oes	Mae data'n dangos bod Rhanbarth Canolbarth Cymru yn cynnwys safleoedd cyflogaeth strategol hefyd	<b>Oes</b>	Cymhellion ariannol a datblygu sgiliau.
Datblygu amaethyddiaeth		Oes	Oes	Mae data'n dangos bod y sector amaethyddol yn gryfder ar gyfer economi Gogledd Cymru hefyd	<b>Oes</b>	Cyllid (e.e. UE), rheoli tir a rhaglenni penodol i'r sector a pholisi'r llywodraeth (e.e. sgiliau).
Ansawdd a gwarchod yr Amgylchedd Naturiol a chyrchfannau amgylcheddol gan gynnwys tirwedd a dŵr (gan gynnwys y Parc(iau) Cenedlaethol, AHNEau ac ATAau)	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Cynnal a chadw a rheoli tir / adnoddau.

Cysylltedd digidol	Oes			Mae data'n dangos bod cysylltedd digidol yn wael ledled Cymru, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig	<b>Oes</b>	Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. cyflwyno band eang cyflym iawn fesul cam).
Cysylltiadau trawsffiniol yn cynnwys i Loegr ac Iwerddon, yn ogystal â rhyngwladol	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth, partneriaethau rhanbarthol a chydweithio.
Y sector ynni yn cynnwys economi carbon isel (e.e. Wylfa a chyfluoedd ar gyfer ynni adnewyddadwy)	Oes	Oes		Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth, rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. targedau a sgiliau).
Mwynau a chloddio		Oes		Mae data'n dangos bod nifer sylweddol o safleoedd mwynau yn Ne-ddwyrain Cymru hefyd	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth, rhaglenni penodol i'r sector, rheoli tir ac adnoddau.
Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Gwarchod a gwella ar lefel ranbarthol.
Porthladdoedd (e.e. Caergybi, Caerdydd, Casnewydd)	Oes			Mae data'n dangos bod seilwaith porthladd pwysig ym mhob un o'r rhanbarthau	<b>Oes</b>	Rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. crefft a sgiliau).
Meysydd awyr ac awyrfod			Oes	Ceir seilwaith trafniadaeth awyr strategol yng Ngogledd Cymru hefyd	<b>Oes</b>	Hyrwyddo twristiaeth ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. crefft a sgiliau).
Rhwydwaith trafniadaeth (e.e. ffyrdd a rheilffyrdd)	Oes		Oes	Mae data'n dangos bod cysylltedd cefnffordd a rheilffordd yng Nghanolbarth a De-orllewin Cymru hefyd, ond mae'n brinnach o gymharu â'r ddau ranbarth arall	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafniadaeth gynaliadwy) a gweithredu / cynnal a chadw.
Asedau treftadaeth a thirwedd hanesyddol	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Rheoli a chynnal a chadw tir ac adnoddau.



Tabl 4 Materion SWOT a'r FfDC - Gwendidau

**Gwendidau**

Gwendid	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru	Gwirio Data	Rôl gan y FfDC	Aethpwyd i'r afael ag ef / cyflawnwyd y tu allan i'r cylch gwaith Cynllunio
Argaeledd tir a hyfywedd	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Argaeledd tir, rheoli ac ysgogwyr y farchnad.
Cysylltedd digidol a thelathrebu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth a rhaglenni a strategaethau buddsoddi darparwyr gwasanaethau.
Amaethyddol – graddfa ffermydd (Cydweithfeydd)	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Strategaethau penodol i'r sector mewn perthynas â hyfywedd a chyllido.
Dewisiadau cyfyngedig o ran cyflogaeth, a dibynnu ar swyddi tymhorol â chyflog isel (e.e. twristiaeth)		Oes		Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Grymoedd y farchnad a rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. sgiliau a chymhellion ariannol).
Safleoedd diwydiannol mawr cyfyngedig			Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Grymoedd y farchnad, rhaglenni a strategaethau penodol i'r sector (e.e. cymhellion ariannol).
Pellter i farchnadoedd a chymudo allan		Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Grymoedd y farchnad a chyfle economaidd.
Gwanhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru		Oes		Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Hyrwyddo a chyllido ar lefel genedlaethol a lleol. Strategaethau'r Llywodraeth (e.e. twf y Gymraeg).

Ansawdd aer / mwy o draffig	Oes			Mae data'n dangos bod ansawdd aer gwael yn broblem mewn ardaloedd o Dde-ddwyrain Cymru hefyd	<b>Oes</b>	Grymoedd y farchnad, diffyg dewisiadau amgen (e.e. trafndiaeth gyhoeddus) ac angen buddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol (e.e. gwefrio cerbydau trydan).
Gorbwylais ar yr amgylchedd wrth ystyried datblygu	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Rôl cyrff statudol yn y broses benderfynu. Gallu i ymgynghori'n eang yn gynnar yn y broses ddatblygu.
Gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus ac effaith ar unigedd ac allgáu cymdeithasol	Oes		Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafndiaeth gynaliadwy) a chyllido gwasanaethau, gweithredu / cynnal a chadw.
Dibyniaeth ar y car ac anawsterau o ran newid ymddygiadau i deithio cynaliadwy		Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Grymoedd y farchnad, diffyg dewisiadau amgen (e.e. trafndiaeth gyhoeddus) ac angen buddsoddi mewn seilwaith yn y dyfodol (e.e. gwefrio cerbydau trydan).
Diffyg seilwaith i gerbydau trydan			Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Grymoedd y farchnad a diffyg strategaeth llywodraeth ar ddarparu seilwaith.
Cysylltiadau trafndiaeth, yn enwedig o'r Gogledd – De	Oes	Oes		Mae data'n dangos bod cysylltiadau rhwng Gogledd Cymru a De Cymru yn gyfyngedig hefyd o Dde-ddwyrain Cymru	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafndiaeth, cyllid a blaenoriaethau), cynnal a chadw a rheoli.
Teithiau awyr	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafndiaeth, cyllid, targedau a newid hinsawdd).
Cysylltedd grid, storio ynni a chapasiti		Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Prosesau'r farchnad (e.e. system yn cael ei harwain gan y galw) ac oedran seilwaith.
Datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd a gwrthwynebiad i SDCau		Oes		Mae data'n awgrymu bod perygl llifogydd yn broblem mewn ardaloedd arfordirol ym mhob un o'r tri rhanbarth	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth a chanllawiau a'u cymhwyso yn ystod y broses benderfynu.

Ansawdd aer (e.e. effaith yr M4)			Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Polisi'r Llywodraeth (e.e. hierarchaeth trafndiaeth, cyllid, targedau a newid hinsawdd).
Argaeledd tir gyda daliadau gan Awdurdodau Lleol			Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>	Llywodraethu ac ymagwedd at reoli asedau.

Tabl 5 Materion SWOT a'r FfDC - Cyfleoedd

## Cyfleoedd

Cyfleoedd	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru	Gwirio Data	Rôl gan y FfDC
Hygyrchedd porthladdoedd, mewnfônion a chyfleoedd cyflogaeth	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Mynediad / cysylltedd i gyfleusterau lleol / canolbwyntio datblygu mewn ardaloedd sy'n lleihau'r angen i deithio	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Twristiaeth ac ehangu			Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Cysylltedd digidol / gweithio gartref	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Sectorau Ynni / Carbon Isel / Micro-gynhyrchu / cynlluniau cymunedol	Oes		Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy (e.e. haul, gwynt, llanw)	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>

Cysylltedd y grid trydan	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Swyddi digidol / gwerth uchel	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Twf / deoryddion BbaCh	Oes		Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Canolfannau tref / mannau gwag â diben newydd / dyfodol manwerthu	Oes			Mae data'n dangos bod canolfannau gwasanaethau manwerthu llai wedi'u gwasgaru ar hyd Canolbarth a De-orllewin Cymru hefyd	<b>Oes</b>
Ymestyn y tymor twristiaeth	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Amaeth-dwristiaeth / cynnyrch amaethyddol	Oes	Oes		Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Newid moddol / trafnidiaeth gyhoeddus well	Oes		Oes	Mae data'n awgrymu bod hwn yn faes cyfle yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru hefyd.	<b>Oes</b>
Seilwaith gwefrio cerbydau trydan	Oes		Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Systemau draenio cynaliadwy fel rhan o ddatblygiad newydd	Oes		Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Capasiti adeiladu a safonau yn y Parc Cenedlaethol	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Cynllunio ar gyfer yr hinsawdd yn newid a datgarboneiddio	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Cynlluniau Rheoli Traethlin (a chynlluniau strategol ar gyfer rheoli dŵr / amddiffynfeydd)	Oes		Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>

Cynllunio mwynau a gwastraff ar raddfa ranbarthol	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Y FfDC a'r Cynllun Morol, yn cynnwys cefnogaeth i ddiwydiannau morol	Oes	Oes		Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Annog defnyddiau newydd ar gyfer asedau treftadaeth, gan gynnwys adeiladau rhestredig	Oes	Oes		Mae data'n dangos bod nifer sylweddol o asedau treftadaeth dynodedig yn rhanbarth De-ddwyrain Cymru hefyd	<b>Oes</b>

Tabl 6 - Materion SWOT a'r FfDC - Bygythiadau

## Bygythiadau

Bygythiadau	Gogledd Cymru	Canolbarth a De-orllewin Cymru	De-ddwyrain Cymru	Gwirio Data	Rôl gan y FfDC
Peilonau newydd ac effaith ar yr amgylchedd	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Perygl llifogydd a datblygu	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Tywydd eithafol / newid hinsawdd	Oes	Oes	Oes	Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Gwydnwch y rhwydwaith trafndiaeth	Oes			Mae data'n dangos bod Cymru wedi'i chysylltu orau gan ffyrdd	<b>Oes</b>
Effaith twristiaeth ar yr amgylchedd naturiol	Oes			Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>
Effaith amaethyddiaeth ar yr amgylchedd naturiol		Oes		Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>

Cyfyngiadau amgylcheddol yn effeithio ar argaeledd tir a chapasiti i ddatblygu		Oes		Mae data'n dangos bod gan yr holl ranbarthau nifer uchel o safleoedd pwysig wedi'u dynodi'n genedlaethol a rhanbarthol	<b>Oes</b>
Cysylltedd grid yn cyfyngu ar botensial ynni adnewyddadwy		Oes		Gallai astudiaeth bellach helpu egluro neu gefnogi hyn ar draws rhanbarthau eraill.	<b>Oes</b>

## 4 Rôl y FfDC

---

### 4.1 Ymagwedd

Mae llawer o faterion sy'n rhychwantu gwahanol feysydd polisi wedi'u dynodi naill ai fel cryfderau, gwendidau, cyfleoedd neu fygythiadau ar draws y tri rhanbarth yng Nghymru. Er mwyn helpu canolbwyntio ar yr hyn y gall y FfDC ei wneud i helpu mynd i'r afael â, cefnogi neu ystyried y materion hynny sy'n fwyaf perthnasol, mae grwpiau o faterion wedi'u grwpio fesul themâu.

Dadansoddir y themâu hynny yn Nhabl 7.

Yn gyntaf, caiff pob thema ei hystyried gyda chrynodeb o'i chryfderau, gwendidau, cyfleoedd neu fygythiadau ar draws y tri rhanbarth yng Nghymru.

Yna mae pob thema yn ystyried yr ardal ofodol / graddfa briodol, ffocws polisi, gofynion seilwaith a chysylltiadau â meysydd polisi / amcanion eraill

Mae'r dadansoddiad yn ystyried pob thema a beth allai'r FfDC ei wneud i gynyddu / hyrwyddo'i chryfderau a'i chyfleoedd, a lleihau / mynd i'r afael â'i gwendidau a'i bygythiadau.

Mae hyn wedi golygu distyllu barnau rhanddeiliaid a chymhwyso barn broffesiynol yr awduron o brofiad o systemau cynllunio Cymru a systemau cynllunio eraill.

Dylid cydnabod, er bod themâu a materion penodol wedi'u cael o adborth rhanddeiliaid sy'n berthnasol i ranbarthau penodol, gellir ystyried rhai o'r pwyntiau yn bwyntiau sy'n berthnasol i Gymru gyfan. Amlinellir hynny fel rhan o'r argymhellion a wneir yn rhan 4 yr adroddiad hwn.

Mae'n bwysig cydnabod fod y rhan hon yn adroddiad ffeithiol a chryno o'r dadansoddiad SWOT, ei ganlyniadau a barn Arup ar rôl y FfDC o ran cefnogi neu fynd i'r afael â'r materion allweddol a godwyd ledled Cymru ac ym mhob rhanbarth, fel bo'n briodol.

### 4.2 Cydberthynasau

Fel yr amlinellwyd uchod, mae pob un o'r themâu yn ystyried cysylltiadau â meysydd polisi / amcanion eraill.

Un ystyriaeth allweddol i'r FfDC a datblygu polisi yw natur gydberthynol meysydd polisi a themâu. Mabwysiadwyd yr ymagwedd hon wrth ddiwygio Polisi Cynllunio Cymru 10, lle mae themâu yn ymwneud â chreu lleoedd wedi disodli strwythur testun / sectoraidd traddodiadol polisi cenedlaethol.

Caiff yr angen i weithio mewn ffordd integredig ei eiriol yn adran 2.3 yr adroddiad hwn. Gyda Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae gofyniad bellach i Lywodraeth Cymru a chyrrff cyhoeddus eraill i ystyried yr integreiddio rhwng pileri economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol datblygu cynaliadwy.

Fel rhan o'r FfDC, mae yna gyfle i ddylanwadu ar ystod o themâu polisi drwy ymyriadau unigol neu luosog.

Er enghraifft, drwy nodi'r cyfle ar gyfer technolegau ynni adnewyddadwy sy'n bodloni anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni'u hanghenion eu hunain, byddai'r FfDC:

- a) Yn cefnogi cyflenwi ynni adnewyddadwy i fodloni targedau cenedlaethol;
- b) Yn cyfrannu at leihau carbon;
- c) Yn cefnogi a chynhyrchu cyfleoedd cyflogaeth mewn sector twf;
- ch) Cefnogi datblygu sgiliau a hyfforddiant yn y diwydiant adeiladu a'i gadwyn gyflenwi;
- d) Yn creu budd i gyflogwyr lleol a chymunedau trwy berchnogaeth leol / cynlluniau cynhyrchu ynni yn ystod gweithredu, a buddion yn ystod yr adeiladu;
- dd) Yn galluogi trafodaethau strategol gyda darparwyr gwasanaeth allweddol ynglŷn â darparu seilwaith e.e. cysylltiadau ynni;
- e) Yn gwella'r rhwydwaith grid yn anuniongyrchol, sy'n dod â buddion ehangach e.e. galluogi datblygu masnachol / diwylliannol a chyflwyno seilwaith Cerbydau Trydan fesul cam (a datgarboneiddio trafndiaeth);
- f) Cyfarwyddo Cynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) i fireinio ardaloedd addas ar gyfer datblygu;
- ff) Amlinellu a chydabod elfen o newid gydag effeithiau amgylcheddol e.e. effeithiau ar y dirwedd yn sgil datblygu.

Mae hyn yn dangos lle mae'n rhaid i gymorth polisi mewn un maes ystyried yr effeithiau polisi cydberthynol (e.e. effeithiau ar feysydd polisi eraill) yn ogystal â'r buddion a'r effeithiau ehangach (e.e. seilwaith mawr a newid tirwedd).

Mae Tabl 7 yn nodi ble ddylai'r FfDC ystyried yr ymyriadau a'r perthnasoedd posibl hyn lle bo'n briodol, fel yr angen i faterion yn ymwneud â thwristiaeth a hamdden ystyried trafndiaeth yn nhermau mynediad a chysylltedd, yn ogystal â seilwaith digidol i helpu sicrhau bod datblygu polisi wedi'i integreiddio yn ei ymagwedd.



Tabl 7 Dadansoddiad a Chanlyniadau

**Dadansoddiad / Canlyniadau**

Themâu	Crynodeb	Ardal Ofodol / Graddfa	Ffocws Polisi	Seilwaith	Cysylltiadau â Meysydd Polisi / Amcanion Eraill	Rôl y FfDC
<b>Twristiaeth a Hamdden</b>	<p>Mae twristiaeth, hamdden a Hawliau Tramwy Cyhoeddus yn cael eu nodi yn gryfder yn Rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru gyda chyfleoedd penodol mewn perthynas ag amaeth-dwristiaeth a chynyddu asedau twristiaeth, yn enwedig yn Ne-ddwyrain Cymru.</p> <p>Mae effaith bosibl twristiaeth a hamdden ar yr amgylchedd naturiol yn cael ei ystyried yn fygythiad i ranbarth Gogledd Cymru, yn enwedig o ystyried nifer yr atyniadau 'ar y tir' o fewn yr economi werdd.</p>	Rhanbarthol – yn adlewyrchu'r cynnig gwahanol o ran twristiaeth a hamdden ledled Cymru	Hwyluso a chefnogi gweithgareddau twristiaeth trwy gydol y flwyddyn, a sicrhau cydbwysedd rhwng y buddion economaidd ac effeithiau ar yr amgylchedd.	Amherthnasol	Trafnidiaeth – mynediad a chysylltedd Seilwaith digidol - cysylltedd	<p>Gallai'r FfDC gyfarwyddo CDSau i nodi ardaloedd twristiaeth bras i'w cefnogi. Ar gyfer Gogledd Cymru, gallai hyn ganolbwyntio ar asedau amgylcheddol naturiol ac, ynghyd â Chanolbarth a De-orllewin Cymru, bod yn fodd o gefnogi neu greu arallgyfeirio amaethyddol a/neu bontio gyda'r amcan cyffredinol o gefnogi datblygu cynaliadwy. Mae De-ddwyrain Cymru yn debygol o gadw ei ffocws twristiaeth ar gyrchfannau presennol.</p> <p>Ni ragwelir bod angen i safleoedd gael eu nodi o fewn y FfDC, ac mae PCC yn darparu'r polisi cynllunio priodol ar lefel genedlaethol. Fodd bynnag, gallai twristiaeth fod yn un sector o'r economi y gallai'r FfDC ddarparu arweiniad defnyddiol iddo ar lefel uchel.</p> <p>Gallai CDSau nodi ardaloedd neu safleoedd ar gyfer datblygu / twf yn y dyfodol. Gallant ddymuno blaenoriaethu rhai mathau o dwristiaeth neu greu 'parthau' lefel uchel neu ddyraniadau lle mae buddiannau twristiaeth yn rhedeg ar draws ffiniau gweinyddol. Gallai hyn gynnwys ceisio 'lledaenu' neu fel arall bwysleisio buddion twristiaeth parciau cenedlaethol neu leiniau arfordirol.</p>
<b>Y Gymraeg</b>	Ystyrir bod y Gymraeg yn gryfder yn rhanbarth Gogledd Cymru, ond codwyd	Cenedlaethol – yn gyson â gosod	Cefnogi datblygiadau a	Amherthnasol	Tai Cyflogaeth	Mae hwn yn faes polisi sy'n elfen o bob polisi'r llywodraeth. Mae rhan bwysig

	<p>pryderon ynglŷn ag effaith newidiadau yn y boblogaeth.</p> <p>Ystyrir bod gwanhau'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn wendid yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, tra bod tensiynau diwylliannol yn Rhanbarth De-ddwyrain Cymru.</p>	<p>targedau ledled Cymru.</p>	<p>fyddai'n gwneud cyfraniad cadarnhaol at y Gymraeg a diwylliant Cymru.</p>			<p>gan Gynllunio i'w chwarae hefyd.</p> <p>Gallai'r FfDC nodi ardaloedd bras lle mae'r Gymraeg yn amlwg, er mwyn helpu hyrwyddo a gwarchod yr iaith / diwylliant wrth symud ymlaen. Byddai hyn yn rhoi 'bachyn' ar gyfer llunio polisiau CDS a CDLI.</p> <p>Gan fod cyd-destun ag anghenion y Gymraeg a'r cymunedau sy'n ei choleddu yn amrywio o awdurdod i awdurdod (ac mewn rhai achosion, o anheddiad i anheddiad), mae haenau is maes llunio polisi mewn lle gwell i gydlynu ymdrechion.</p> <p>Fel arall, nid yw'n thema cynllunio gofodol ac yn dod o dan PCC (dewisiadau strategol a gofodol, lleoedd actif a chymdeithasol, lleoedd unigryw a naturiol). Nid yw PCC yn 'dyrannu' <i>Galluogi'r Gymraeg i ffynnu</i> o fewn y nod llesiant 'Cynhyrchiol a Mentrus'; efallai y gellid rhoi ystyriaeth bellach i'r maes hwn yng Ngogledd Cymru er mwyn archwilio creu ysgogiad economaidd mewn perthynas â'r Gymraeg.</p>
<b>Cyflogaeth</b>	<p>Mae safleoedd diwydiant a chyflogaeth yn cael eu nodi fel cryfder yng Ngogledd-ddwyrain a De-ddwyrain Cymru, gyda chysylltiadau trawsffiniol cryf. Fodd bynnag, mae'r diffyg safleoedd diwydiannol mawr yn wendid yn Ne-ddwyrain Cymru.</p> <p>Nodir bod y porthladdoedd yn gryfder arbennig yn y Gogledd a'r De-ddwyrain. Gwelir hygyrchedd porthladdoedd, mewnforion a chyfleoedd cyflogaeth fel cyfleoedd ar draws pob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru.</p> <p>Mae dewisiadau cyflogaeth cyfyngedig a dibyniaeth ar swyddi tymhorol neu swyddi â chyflog isel yn wendid yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin</p>	<p>Rhanbarthol - yn adlewyrchu ffocysau'r sector ar y lefel ranbarthol a chyfleoedd posibl mewn canolfannau rhanbarthol.</p>	<p>Safleoedd Cyflogaeth – nodi a chefnogi safleoedd pwysig yn rhanbarthol neu genedlaethol.</p> <p>Sectorau – nodi sectorau allweddol (lle bo'n briodol) a chefnogi'u datblygiad.</p> <p>Masnachol / Manwerthu – nodi a chefnogi safleoedd / canolfannau pwysig yn</p>	<p>Ar safleoedd – sicrhau bod safleoedd sydd wedi'u nodi yn barod ar gyfer buddsoddi.</p> <p>Trafnidiaeth – sicrhau cysylltedd a hygyrchedd.</p> <p>Digidol – seilwaith modern yn barod i gefnogi gweithgareddau.</p>	<p>Trafnidiaeth a Phorthladdoedd Seilwaith digidol</p>	<p>Mae gan Gynllunio y cyfle i ddylanwadu ar leoliad safleoedd cyflogaeth newydd ac annog adfywio. Felly, mae'n eistedd ochr yn ochr â ffocws changach y llywodraeth ar gyflogaeth.</p> <p>Gallai'r FfDC nodi safleoedd strategol o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n bodoli'n barod neu rai'r dyfodol (mewn ymgeis i roi eglurder a sicrwydd ynghylch (aidddefnyddio), yn ogystal ag amlinellu gwelliannau gofodol lefel uchel sydd eu hangen (fel gwelliannau i rwydweithiau neu seilwaith meddal) er mwyn annog twf a buddsoddiad.</p> <p>Yn eu tro, gallai Cynlluniau Datblygu Strategol hyrwyddo darparu'r safleoedd cenedlaethol hynny a hefyd sefydlu set is-genedlaethol o safleoedd blaenoriaeth</p>

	Cymru. Nodir cyfleoedd penodol ar gyfer yr economi ddigidol, twf BBaChau a swyddi gwerth uchel. Ceir cyfle pellach i gefnogi a rhoi diben newydd i ddatblygu manwerthu.		rhanbarthol neu genedlaethol.			a / neu sectorau allweddol neu gyfleoedd buddsoddi cysylltiedig. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i'r sectorau a ddewiswyd er mwyn osgoi canibaleiddio rhwng rhanbarthau ac o fewn rhanbarthau.  Mae'r dystiolaeth SWOT a gasglwyd drwy'r astudiaeth hon yn rhoi syniad da o'r amrywiadau rhanbarthol.
<b>Tai</b>	<p>Fe wnaeth pob un o'r grwpiau, ar ffurfiau amrywiol, gytuno fod gan gynllunio rôl i ddatblygu cymunedau drwy gynllunio cadarnhaol a hyrwyddo digon o dai yn y lleoliadau cywir. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau seilwaith ategol digonol ar gyfer tai, a darpariaeth tai fforddiadwy briodol. Y teimlad cyffredinol oedd bod tai yn rhychwantu'r graddfeydd cynllunio rhanbarthol a lleol, gyda Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yn canolbwyntio'n fwy lleol na'r rhanbarthau eraill.</p> <p>Cyfeiriad at y maes hwn gymaint wrth fynd heibio ag yn uniongyrchol. Er enghraifft, daeth trafodaethau ynglŷn ag atal pobl ifanc yn allfudo yn ôl at argaeledd a fforddiadwyedd tai. Roedd hon yn her genedlaethol. Yn yr un modd, cyfeiriodd drafodaethau am les ac iechyd at ansawdd tai a chymysgedd deiliadaethau. Cyfeiriwyd at dwf poblogaeth negyddol yn Rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru.</p> <p>Tynnodd Rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru sylw at yr effaith y gallai tai newydd ei chael (yn gadarnhaol ac yn negyddol) ar y Gymraeg.</p> <p>Tynnodd Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru sylw at bryder ynglŷn â thanfeddiannu tai.</p>	Rhanbarthol/Lleol – yn seiliedig ar asesiadau o'r angen am dai a phwysigrwydd cydgyssylltu ar draws ardaloedd marchnadoedd tai.	<p>Twf poblogaeth – cytuno ar lefel y galw i ddarparu ar ei gyfer.</p> <p>Angen am dai – cytuno ar y cynnydd net mewn unedau, a dosbarthiad y cynnydd hwnnw.</p> <p>Ystod – diffinio'r angen o ran deiliadaeth a maint (ystafelloedd gwely).</p> <p>Fforddiadwyedd – diffinio lefel a natur yr angen am dai fforddiadwy (gweithiwr allweddol, â chymorth, rhanberchnogaeth, rhent cymdeithasol, canolradd ac ati.)</p>	<p>Caled – safleoedd gyda ffyrdd, ynni, dŵr, carthffosiaeth a chysylltedd cyfathrebu a digidol.</p> <p>Meddal – ysgolion, gofal iechyd, mannau agored a mannau chwarae</p>	<p>Darpariaeth seilwaith (caled a meddal), Y Gymraeg, Cyflogaeth, Iechyd a Lles, Trafnidiaeth</p>	<p>Tai yw'r maes y creffir arno fwyaf yn y broses gwneud cynlluniau. Mae heriau'n ymwneud â phennu'r nifer briodol o gartrefi newydd i gynllunio ar eu cyfer, a ble ddylent gael eu hadeiladu. Mae p'un a yw'r FfDC yn arwain neu'n llywio'r broses hon, ac i ba raddau, yn oddrychol. Ceir cryn fantais wrth wneud amcangyfrif ar y cychwyn o'r angen am dai mewn ymarferiad cenedlaethol; dim ond unwaith y mae angen ei wneud, mae'n golygu y ceir trosolwg strategol o dwf ac mae'n osgoi dadlau. Gellir gwneud hyn yn genedlaethol a/neu'n rhanbarthol naill ai fel ymarferiad unigol neu ymarferiad fesul cam.</p> <p>Fodd bynnag, nid oedd fawr o gefnogaeth ymhlith rhanddeiliaid yn gyffredinol i'r FfDC arwain yr ymarferiad hwn. Nid oedd hyn yn amrywio'n rhanbarthol; mae'n debygol ei fod yn gyfuniad o eisiau cadw rheolaeth leol o'r mater hwn, ac ansicrwydd ynghylch y modd y gellid ei gwblhau (dyna'r rhagdybiaethau normadol a oedd yn gysylltiedig) a phwy fyddai'n dod allan ohoni mewn sefyllfa well neu sefyllfa waeth.</p> <p>Cred yr ymgynghorwyr fod manteision ymagwedd genedlaethol yn gorbwyso'r diffyg ymrwymiad gan rhanddeiliaid ar hyn o bryd. Gallai ymagwedd bragmatig gynnwys ymagwedd 'fesul cam' sy'n golygu bod y FfDC yn pennu'r cyfeiriad ar yr angen cenedlaethol a rhanbarthol</p>

						<p>am dai, a bod hynny yn ei dro yn nodi'r man cychwyn ar gyfer CDSau. Byddai angen cynnal prawf ymhlith rhanddeiliaid o ymagwedd o'r fath. Y dewis arall fyddai parhau i wneud penderfyniadau ynglŷn â thwf ar lefel leol, ond gan gydbwyso'r strategaethau tai a chyflogaeth yn ofalus ar lefel strategol.</p> <p>Ochr yn Ochr â Pholisi Cynllunio Cymru, gall y FfDC hyrwyddo dewisiadau/technolegau tai cynaliadwy, fel saerño oddi ar y safle.</p>
<b>Trafnidiaeth</b>	<p>Mae trafndiaeth yn cael ei nodi yn gryfder yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru, yn enwedig gyda'r A55, M4 a'r rhwydwaith rheilffyrdd yn gwasanaethu canolfannau allweddol a chymunedau, gyda chysylltiadau trawsffiniol cryf i Loegr.</p> <p>Ystyrir bod cynnydd mewn traffig yn fygythiad yng Ngogledd Cymru, gan gyfeirio'n benodol at ansawdd aer. Mae seilwaith gwefrio Cerbydau Trydan yn wendid ac yn gyfle.</p> <p>Mae dibyniaeth ar y car ac anawsterau o ran newid ymddygiadau i deithio cynaliadwy yn wendid. Ystyrir bod gwydnwch y rhwydwaith trafndiaeth yn fygythiad, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, gan gyfeirio'n benodol at yr A55.</p> <p>Mae gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus yn cael eu hystyried yn wendid ac yn gyfle ledled Cymru, gyda phryderon ynghylch ynysu / cynhwysiant cymdeithasol.</p> <p>Mae mynediad at / cysylltedd â chyfleusterau lleol a chanolbwyntio datblygu mewn ardaloedd sy'n lleihau'r angen i deithio, yn gyfle, yn enwedig i Ogledd Cymru.</p> <p>Mae pellter i farchnadoedd a chymudo allan yn bryder, gyda chysylltiadau</p>	<p>Cenedlaethol a rhanbarthol – yn adlewyrchu'r cysylltiadau allweddol o fewn a rhwng y rhanbarthau a thu hwnt.</p>	<p>Nodi a hwyluso cysylltiadau allweddol gan ddarparu hygyrchedd addas er mwyn cefnogi datblygu a symud pobl a nwyddau.</p>	<p>Trafnidiaeth – sicrhau cysylltedd a hygyrchedd.</p>	<p>Tai Cyflogaeth Twristiaeth Masnachol a manwerthu</p>	<p>Trafnidiaeth, a buddsoddi mewn seilwaith cysylltiedig, yw un o'r prif 'ysgogiadau' y gall y llywodraeth eu gweithredu i helpu dylanwadu ar loeodd. Rhaid i gynllunio arwain ac adweithio er mwyn hyrwyddo buddion a sicrhau cyfatebolrwydd fel rhan o weledigaeth a rennir.</p> <p>Gallai'r FfDC fod yn graidd wrth nodi anghenion a blaenoriaethau trafndiaeth a seilwaith cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, yn ei dro yn adlewyrchu'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol. Mae'r heriau parhaus mewn perthynas â chysylltedd cenedlaethol rhwng y Gogledd-De yn faes i'w ystyried.</p> <p>Hefyd, gall y FfDC geisio cefnogi barn genedlaethol ar y cydbwysedd ymdrech rhwng cysylltedd ffisegol a rhithwir a blaenoriaethu angen a chyfle. Gall hyd yn oed ddatblygu parthau lefel uchel ar gyfer y cyfryw flaenoriaethau.</p> <p>Gallai Cynlluniau Datblygu Strategol nodi prosiectau rhanbarthol allweddol. Byddai'r rhain yn adlewyrchu unrhyw ffocws cylchfaol neu ofodol yn y FfDC. Mewn gwirionedd, gallai hyn fod yn gyfuniad o rymoedd o'r brig i lawr ac o'r gwaelod i fyny i geisio llywio'r anghenion craidd ar gyfer rhanbarthau,</p>

	<p>rhwng y Gogledd-De yn wendid penodol.</p> <p>Mae mynediad at deithiau awyr ac awyrofod yn wendid yng Ngogledd Cymru, ond yn gryfder yn Ne-ddwyrain Cymru.</p>					<p>fel trafndiaeth gyhoeddus (wledig) gynaliadwy a dichonadwy ar gyfer Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru, gan annog newid moddol yn genedlaethol a chreu naratifau strategol ar gyfer cynlluniau 'sydd yn yr arfaeth'.</p>
<b>Ynni</b>	<p>Mae'r diwydiant ynni ac ynni adnewyddadwy yn cael ei ystyried yn gryfder ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru a Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru, gan gynnwys ei sectorau carbon isel a chyfleoedd ar gyfer micro-gynhyrchu a chynlluniau cymunedol.</p> <p>Un bygythiad ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru yw'r effaith y gallai peilonau newydd ei chael ar y dirwedd, ac effaith gyffredinol datblygu yn gysylltiedig ag ynni ar yr amgylchedd.</p> <p>Mae cysylltedd grid, storio ynni a chapasiti yn wendidau, yn enwedig yn Rhanbarthau Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. Mae hyn yn cyfyngu ar botensial datblygu yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae cysylltedd grid yn gyfle hefyd ar draws pob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru.</p> <p>Mae gwneud mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy yn gyfle ledled Cymru.</p>	<p>Cenedlaethol a rhanbarthol – yn adlewyrchu nodi targedau a phrosiectau strategol yn ogystal â'r sgiliau penodol i'r ddaearyddiaeth, hygyrchedd ac ystyriaethau amgylcheddol sydd eu hangen.</p>	<p>Cefnogi'r agenda datgarboneiddio a'r angen i ddarparu ffynonellau ynni i gefnogi datblygu a chymunedau / busnesau cynaliadwy.</p>	<p>Cysylltiadau grid Trafndiaeth – sicrhau cysylltedd a hygyrchedd.</p>	<p>Carbon a newid hinsawdd Trafndiaeth</p>	<p>Mae ynni yn hollbwysig i ddatblygu cynaliadwy, ac mae hefyd yn ddiwydiant gwerth uwch sydd ar gynydd.</p> <p>Gallai'r FfDC nodi a chefnogi ardaloedd a mathau o ynni o amgylch lleoliadau datblygu strategol presennol a newydd. Soniodd rhanddeiliaid dro ar ôl tro am TAN8 (ynni adnewyddadwy, a nodi meysydd statogol ar gyfer ynni gwynt) fel enghraifft o'r modd y gall polisi cenedlaethol ddarparu sicrwydd gofodol gyda manylder ynglŷn â mathau o ynni. Dylai'r FfDC archwilio p'un a allai'r ymagwedd hon gael ei hehangu.</p> <p>Gallai Cynlluniau Datblygu Strategol nodi prosiectau rhanbarthol allweddol ar sail fframwaith y FfDC, er mwyn helpu sicrhau y cynhelir sefyllfa amrywiol a chystadleuol ac i sicrhau cydbwysedd rhwng (er enghraifft) twf mewn poblogaeth a/neu gyflogaeth a darpariaeth ynni. Fel gyda dynodiadau cyfredol TAN8, gallai fod yn gwbl dderbyniol i CDS fireinio ffin neu barth y FfDC ar sail gweithgareddau casglu tystiolaeth, ymgynghori a dadansoddi'r CDS.</p> <p>Gall datblygiadau ynni fod yn ddadleuol, yn debyg iawn i seilwaith neu ddatblygu yn gyffredinol, a gall y FfDC a'r CDS, gyda'i gilydd, ddarparu dadl genedlaethol ar 'beth sy'n mynd ble'. Wrth wneud hynny, bydd yn bwysig ystyried sut mae CDLLau a chymunedau yn ymgysylltu â'r broses hon.</p> <p>Yn ogystal, dylai'r FfDC ddarparu safbwynt polisi ar gyfer llobio</p>

						gweithredwyr y rhwydwaith trydan (e.e. Grid Cenedlaethol / Gweithredwyr y Rhwydwaith Dosbarthu) wrth gynllunio i fodloni galw'r dyfodol a helpu cwrdd â thargedau Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy fel enghraifft.
<b>Dŵr a Llifogydd</b>	<p>Mae newid hinsawdd a thywydd eithafol, yn ogystal â datblygu mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, yn fygythiad ac yn gyfle ledled Cymru.</p> <p>Mae perygl llifogydd a thywydd eithafol / newid hinsawdd yn cael eu hystyried yn fygythiad i ddatblygu ledled Cymru. Gwelir cynllunio ar gyfer newid hinsawdd, cynhyrchu cynlluniau rheoli traethlin a draenio cynaliadwy fel rhan o ddatblygiad newydd fel cyfle, yn enwedig yng Ngogledd Cymru a De-ddwyrain Cymru. Mae gwrthwynebu SDCau yn wendid penodol yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.</p> <p>Mae cyswllt rhwng y FfDC a chynllunio morol yn cael ei ystyried yn gyfle hefyd.</p>	Rhanbarthol – yn adlewyrchu amodau daearyddol gwahanol, bygythiadau ac anghenion	Ystyried newid hinsawdd a risgiau tywydd eithafol wrth leoli datblygiad  Cefnogi ymagweddau at systemau draenio cynaliadwy fel rhan o ddatblygiad newydd	Amddiffynfeydd rhag llifogydd  Draenio cynaliadwy	Newid hinsawdd	<p>Mae dŵr a llifogydd, drwy Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ystyriaeth genedlaethol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithredu model is-genedlaethol i hyrwyddo gwybodaeth a rhyngweithio lleol. Ymddrinnir ag elfennau 'gofodol' y thema hon ym Mholisi Cynllunio Cymru.</p> <p>Gallai'r FfDC ffurfio rhan o athroniaeth 'ei wneud unwaith, ei wneud yn dda' i gydlyn Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i gynhyrchu sylfaen dystiolaeth genedlaethol a set o ffocysau neu flaenoriaethau. Y nod fyddai creu arbedion effeithlonrwydd ac osgoi dyblygu ar gyfer CDSau a CDLLau, er y byddai angen i'r ddau ddechongli'r dystiolaeth genedlaethol yn eu cyd-destun rhanbarthol neu leol.</p> <p>Ar sail yr uchod, gallai'r FfDC nodi a chefnogi risgiau ac anghenion cynlluniau rheoli traethlin a chynlluniau morol, a chysylltu'r prosesau cynllunio rheoli basn afon a chynllunio defnydd tir.</p> <p>Gallai Cynlluniau Datblygu Strategol nodi prosiectau rhanbarthol allweddol, eto gan weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddiffinio seilwaith hollbwysig.</p>
<b>Amaethyddiaeth / Yr Economi Wledig</b>	<p>Mae datblygu amaethyddol yn gryfder yn Rhanbarthau Canolbarth a De-orllewin Cymru a De-ddwyrain Cymru. Ystyrir bod graddfa ffermydd a diffyg cydweithfeydd yn wendid yng Ngogledd Cymru. Mae'r sector amaethyddol ac amaeth-dwristiaeth yn cael eu hystyried yn gyfle, yn enwedig yng Ngogledd Cymru.</p>	Rhanbarthol – yn adlewyrchu gwahanol ddiwydiannau amaethyddol, sgiliau, anghenion ac ansawdd tir / adnoddau	Cefnogi'r sector amaethyddol ac arallgyfeirio	Amherthnasol	Economi	<p>Mae amaethyddiaeth yn sector allweddol i Gymru, ac mae'n cael ei hystyried yn gryfder ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'r heriau a wynebir yn amrywio. Mae cynllunio yn darparu pwyntiau cymorth niferus ar gyfer amaethyddiaeth, a'r prif rai y cyfeiriwyd atynt gan randdeiliaid oedd yr ystod o hawliau datblygu a ganiateir a'r cydadwaith rhwng tir amaethyddol a'r</p>

	Mae effaith y diwydiant amaethyddol ar yr amgylchedd yn fygythiad arbennig i Ranbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru.					gweithwyr sydd eu hangen i'w reoli a'i gefnogi. Gallai'r FfDC nodi ble mae diwydiant amaethyddol yn gyffredin a lle mae angen rhoi ystyriaeth i gefnogi'r sector a / neu arallgyfeirio yn y sector Gall y CDSau gymryd y meysydd eang hyn ac, fel rhan o'u proses casglu a dadansoddi tystiolaeth eu hunain, penderfynu pa gamau gweithredu rhanbarthol ac isranbarthol gall fod eu hangen. Bydd rhaid i'r CDSau wynebu rhai 'cwestiynau anodd' ynghylch twf economaidd am fod amaethyddiaeth yn gynyddol ddwys o ran tir ond yn llai dwys o ran llafur.
<b>Mwynau a Gwastraff</b>	Mae mwynau a'r diwydiant cloddio yn gryfder yn Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru. Mae Gogledd Cymru'n ystyried bod yna gyfle i gynllunio ar gyfer mwynau a gwastraff ar y raddfa ranbarthol.	Rhanbarthol – y lefel y ceir cefnogaeth ar gyfer cynllunio a chydlynu polisiau a datblygu mwynau a gwastraff	Cefnogi chydlynu polisiau a datblygu mwynau a gwastraff	Amherthnasol	Economi	Yn draddodiadol mae Mwynau a Gwastraff yn faes ffocws ar gyfer cynllunio strategol. Tra bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau cynllunio (pob un ac eithrio parciau cenedlaethol) statws unedol, mae arferion presennol yn dangos y ceir gweithio a chynllunio strategol ar draws awdurdodau. Gallai'r FfDC nodi canolfannau strategol datblygu mwynau a gwastraff ac ardaloedd lle bwriedir ehangu. Fel rhan o hyn, gallai'r FfDC ymgymryd ag ymarferiad 'cydbwyso' cenedlaethol hefyd er mwyn deall cyfanswm y galw a'r galw net. Dylai hyn gydweddu â'r fframwaith presennol ar gyfer deall maint, natur a lleoliad mwynau a dynnir, a'r caniatadau a'r cronfeydd sy'n weddill. Yn eu tro, gallai CDSau nodi a rheoli prosiectau rhanbarthol allweddol a mentrau cydweithredol. Yn bwysig, mae'n rhaid i bolisi cynllunio mwynau ystyried agregau morol hefyd. Gall CDSau fod yn gyfrwng i ddehongli effaith MTANau ar gynllunio gofodol ar y lefel safle.

<p><b>Amgylchedd Naturiol</b></p>	<p>Mae ansawdd yr amgylchedd naturiol a chyrchfannau amgylcheddol (e.e. Parciau Cenedlaethol, AHNEau ac ATAau) yn gryfder ledled Cymru. Yn Rhanbarthau Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru ceir pryderon ynghylch cyfyngiadau amgylcheddol yn effeithio ar argaeledd tir a chapasiti i ddatblygu. Mae cyfle i adeiladu capasiti a safonau ym Mharc Cenedlaethol Eryri.</p> <p>Ystyir bod Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfle, ac felly hefyd adeiladu capasiti a safonau yn y Parciau Cenedlaethol – yn enwedig yng Ngogledd Cymru. Mae cynllunio mwynau a gwastraff ar y lefel ranbarthol yn cael ei ystyried yn gyfle hefyd.</p> <p>Ystyir bod effaith datblygu yn gysylltiedig â thwristiaeth ac ynni yn fygythiad.</p>	<p>Cenedlaethol, rhanbarthol a lleol – yn adlewyrchu gwahanol raddfeydd dynodiadau / llywodraethu / cynnal a chadw / rheolaethau cynllunio ardaloedd gwarchoddedig.</p>	<p>Gwarchod a gwella'r amgylchedd naturiol, wedi'i gydbwyso yn erbyn ystyriaethau cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd eraill.</p>	<p>Trafnidiaeth – mynediad i ardaloedd hamdden a thwristiaeth</p>	<p>Hamdden a thwristiaeth Iechyd a Lles Trafnidiaeth</p>	<p>Fel gyda'r thema 'dŵr a llifogydd', gallai'r FfDC fod yn gatalydd ar gyfer partneriaeth 'ei wneud unwaith, ei wneud yn dda' gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i adeiladu darlun cenedlaethol o wybodaeth amgylcheddol.</p> <p>Fel hyn, gallai'r FfDC nodi ardaloedd gwarchoddedig a gwerth uchel, gan ategu'r polisi cynllunio ar y lefel genedlaethol fel y cyfarwyddir gan Bolisi Cynllunio Cymru. Ar ôl Brexit, gallai'r FfDC fod yn graidd i drosi dynodiadau amrywiol Natura 2000.</p> <p>Hefyd, gallai hyn nodi a chynnwys seilwaith adnoddau naturiol allweddol (e.e. Llwybr Arfordir Cymru, cronfeydd dŵr ac ati).</p> <p>Dylai'r FfDC gael rôl hefyd i gefnogi dyfodol y sector coedwigaeth yng Nghymru a chydabod yr effaith y gallai hyn ei chael ar yr amgylchedd naturiol yn ehangach.</p> <p>Yn eu tro, gallai CDSau ystyried yr amgylchedd naturiol ar y raddfa ranbarthol a llunio darlun mwy 'cydgysylltiedig' rhwng yr amgylchedd naturiol, twf cynaliadwy, cyfleoedd economaidd (fel eco-dwristiaeth) a rôl yr amgylchedd naturiol mewn testunau iechyd a newid hinsawdd.</p>
<p><b>Tir a'r Amgylchedd Adeiledig</b></p>	<p>Mae asedau treftadaeth a'r dirwedd hanesyddol yn cael eu hystyried yn gryfder ledled Cymru.</p> <p>Gwelir annog defnyddiau newydd ar gyfer asedau treftadaeth, gan gynnwys adeiladau rhestredig, fel cyfle, yn enwedig yng Ngogledd Cymru.</p> <p>Ystyir bod argaeledd ac ymarferoldeb tir, yn enwedig yng Ngogledd Cymru. Yn Ne-ddwyrain Cymru ceir pryder ynglŷn â lefel y tir a ddelir gan Awdurdodau Lleol.</p>	<p>Rhanbarthol – yn adlewyrchu'r asedau gwahanol a materion yn ymwneud ag argaeledd / ymarferoldeb tir</p>	<p>Trefnu bod tir sy'n ymarferol i'w ddatblygu ar gael</p> <p>Gwarchod asedau treftadaeth, gan gynnwys adeiladau rhestredig, ac ailddechrau eu defnyddio</p>	<p>Amherthnasol</p>	<p>Economi / Cyflogaeth Twristiaeth Tai</p>	<p>Mae Cadw yn gweithredu'n genedlaethol ac yn is-genedlaethol i reoli'r amgylchedd hanesyddol, a gallai fod yn gysylltiedig ag ymrwymiad 'ei wneud unwaith, ei wneud yn dda' mewn perthynas â'r FfDC.</p> <p>Gallai'r FfDC nodi asedau sy'n bwysig yn genedlaethol i'w gwarchod a'u cefnogi. Er bod amrywio rhanbarthol o ran natur, nifer a'r math o safleoedd ac asedau, mae rôl y FfDC yn debygol o fod yn un gyffredinol o ran ei chwmpas a chymhwyster.</p>



						<p>O ran twf cynaliadwy, gallai nodi a chefnogi safleoedd datblygu strategol. Gallai'r FfDC roi arweiniad ar y cydbwysedd rhwng meysydd angen a chyfle, fel y ffocws ar faes yn y trawsnewid ôl-ddiwydiannol, meysydd sy'n canolbwyntio ar gynnal sylfaen ddiwydiannol a meysydd sy'n canolbwyntio ar ddiwydiannau newydd a diwydiannau sy'n datblygu.</p> <p>Gallai CDSau adeiladu ar yr arweiniad hwn a gweithio allan pa un o'u meysydd eang a'u safleoedd strategol allai gydweddu â mentrau a/neu brosiectau rhanbarthol allweddol.</p>
--	--	--	--	--	--	--

## 5 Crynodeb

---

### 5.1 Trosolwg

Mae dadansoddiad o'r cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau dynodedig a ystyriwyd ledled Cymru yn helpu nodi beth allai'r FfDC ei wneud i warchod, hwyluso a gwella datblygu.

Mae Tabl 2 yn amlinellu'r materion allweddol a godwyd gan randdeiliaid yn ystod digwyddiadau gweithdy ledled Cymru, ac mae Tabl 3, Tabl 4, Tabl 5 a Thabl 6 yn ystyried lle mae'r materion hynny'n berthnasol i bob rhanbarth, lle mae data a gasglwyd yn helpu gwirio barnau'r rhanddeiliaid, a ph'un a ellir cefnogi mater neu fynd i'r afael â mater drwy'r FfDC, neu a oes swyddogaeth i fynd i'r afael â mater neu'i gyflawni y tu allan i'r system gynllunio.

Mae Tabl 7 yn darparu dadansoddiad llawn o'r SWOT ac yn amlinellu barnau Arup ynglŷn â rôl y FfDC wrth ystyried adborth y rhanddeiliaid, yr ymarferiad gwirio data a'r dadansoddiad data.

Mae adrannau olaf yr adroddiad hwn isod yn helpu amlinellu ble a sut y gallai'r FfDC gefnogi datblygu polisi orau ledled Cymru, ac ym mhob un o'r tri rhanbarth yng Nghymru, yn ogystal â bod o fudd i'r system gynllunio nawr ac yn y tymor hwy drwy nodi'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai polisïau'r FfDC ganolbwyntio arnynt.

Mae'r rhan hon yn crynhoi adroddiad ffeithiol a chryno o farnau Arup ar sail y sylfaen dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer y FfDC.

Fel yr eiriolir gan Lywodraeth Cymru, mae'r ymchwil hon wedi cwmpasu Cymru gyfan ac ystod eang o feysydd polisi posibl. Fel y cyfryw, bwriedir i'r astudiaeth hon a'i hargymhellion fod yn rhai lefel uchel, a byddant yn helpu llywio datblygu polisïau'r FfDC, yn ogystal â darparu tystiolaeth a chefnogi datblygu polisi ar gyfer pob lefel, gan gynnwys cynllunio rhanbarthol a Chynlluniau Datblygu Strategol (CDSau) ledled Cymru.

Mae'n bwysig nodi, lle mae argymhellion yn ymwneud â rôl y FfDC o ran cyfeirio cynllunio rhanbarthol drwy'r CDSau, mae swyddogaeth allweddol arall i'w hystyried hefyd o ran CDLLau ar y cyd, a'r angen i ACLLau weithio gyda'i gilydd mewn ymagwedd gydweithredol (fel yr eiriolir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ogystal â'r Ddeddf Gynllunio).

O ran meysydd thematig eraill (y rheiny nad ydynt wedi'u rhestru isod), ystyrir naill ai eu bod yn amherthnasol i'r FfDC, nad ydynt yn thema cynllunio gofodol a/neu ymdrinnir â nhw ym Mholisi Cynllunio Cymru.

Gwneir argymhellion fel a ganlyn felly:

- a) Beth allai'r FfDC ei nodi;
- b) Pa faterion ac ardaloedd gofodol ddylai'r FfDC ganolbwyntio arnynt; a
- c) Sut ddylai'r FfDC gefnogi datblygu polisi.

## 5.2 Beth allai'r FfDC ei nodi

Mewn rhai achosion, nid oes thema cynllunio gofodol i helpu mynd i'r afael â chryfder, gwendid, cyfle neu fygythiad a nodwyd – ac yn lle hynny, Polisi Cynllunio Cymru yw'r lle priodol i bennu polisi cynllunio cenedlaethol.

Argymhellir bod y FfDC yn ystyried yr un ar ddeg o ragolygon canlynol ar lefel genedlaethol:

### Gallai'r FfDC nodi...

1. ... ardaloedd bras lle mae'r Gymraeg yn amlwg, er mwyn helpu hyrwyddo a gwarchod yr iaith.
2. ... y cyfeiriad ar gyfer datblygu cynaliadwy, gan gynnwys yr angen cenedlaethol a rhanbarthol am dai newydd.
3. ... safleoedd cyflogaeth strategol y presennol a'r dyfodol, ac unrhyw welliannau sydd eu hangen i annog twf / buddsoddiad.
4. ... seilwaith a blaenoriaethau trafniadaeth cenedlaethol a rhanbarthol allweddol, gan adlewyrchu'r Cynllun Cyllid Trafnidiaeth Cenedlaethol.
5. ... datblygiadau ynni presennol a newydd ochr yn ochr â chefnogi'r seilwaith cysylltiedig sy'n hanfodol i gyflawni.
6. ... canolfannau datblygu mwynau a gwastraff strategol, ac ardaloedd ehangu arfaethedig.
7. ... risgiau ac anghenion cynlluniau rheoli traethlin a chynlluniau morol.
8. ... ble mae'r diwydiant amaethyddol yn amlwg a lle mae angen rhoi ystyriaeth i gefnogi'r sector a'i arallgyfeirio
9. ... ardaloedd amgylcheddol gwarchoddedig a gwerth uchel, gan ategu'r polisi cynllunio ar y lefel genedlaethol, fel y cyfarwyddir gan Bolisi Cynllunio Cymru.
10. ... asedau treftadaeth pwysig yn genedlaethol i'w gwarchod a'u cefnogi.
11. ... safleoedd datblygu strategol i gynorthwyo â dod â thir sydd ar gael a thir ymarferol.

## 5.3 Pa faterion ac ardaloedd gofodol ddylai'r FfDC ganolbwyntio arnynt

Wrth ystyried y themâu a'r ardaloedd gofodol mwy penodol, mae'n amlwg bod angen i'r FfDC gydnabod ystod eang o faterion allweddol sy'n cydberthyn gan ystyried amrywiadau rhanbarthol.

Wrth eiriol datblygu polisi'r FfDC a fyddai'n mynd i'r afael â'r un ar ddeg o ragolygon uchod, ac yn eu cyflawni, dylai'r FfDC greu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ar y raddfa genedlaethol a rhanbarthol, yn ogystal â chyfeirio meysydd polisi ar gyfer CDSau, CDLlau ar y cyd ac ACLlau i'w blaenoriaethu fel rhan o fframwaith polisi cynllunio integredig.

Dylai'r materion a'r ardaloedd gofodol y dylai'r FfDC ganolbwyntio arnynt gael eu hystyried gyda'i gilydd, gan gydnabod y llu o gyberthynasau a amlinellwyd mewn rhannau blaenorol o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, at ddibenion cyflwyno, mae themâu polisi wedi'u hamlinellu yn eu tro isod ochr yn ochr â naratif cryno o'r hyn ddylai'r FfDC ganolbwyntio arno o fewn y maes polisi hwnnw.

### Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar...

#### a) Twristiaeth a Hamdden

- Cydnabod twristiaeth fel sector pwysig o fewn economi Cymru
- Ar gyfer Gogledd Cymru, canolbwyntio ar asedau amgylcheddol naturiol
- Ar gyfer Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru, bod yn fodd o gefnogi neu greu arallgyfeirio amaethyddol a/neu bontio
- Cynnal De-ddwyrain Cymru fel cyrchfan i dwristiaid
- Cyfarwyddo CDSau i nodi ardaloedd twristiaeth bras gyda safleoedd i'w datblygu yn y dyfodol
- Blaenoriaethu rhai mathau o dwristiaeth neu greu 'parthau' lefel uchel neu ddyraniadau lle mae buddiannau twristiaeth yn rhedeg ar draws ffiniau gweinyddol e.e. parciau cenedlaethol

#### b) Y Gymraeg

- Nodi ardaloedd bras lle mae'r Gymraeg yn amlwg, er mwyn helpu hyrwyddo a gwarchod yr iaith / diwylliant a llywio llunio polisiau CDS a CDLL.
- Yng Ngogledd Cymru, cydnabod ysgogiad economaidd mewn perthynas â'r Gymraeg.

#### c) Cyflogaeth

- Nodi safleoedd strategol o bwysigrwydd cenedlaethol sy'n bodoli'n barod a rhai'r dyfodol
- Amlinellu gwelliannau gofodol lefel uchel sydd eu hangen
- Cyfarwyddo CDSau i helpu darparu safleoedd cenedlaethol a sefydlu set is-genedlaethol o safleoedd blaenoriaeth a / neu sectorau allweddol neu gyfleoedd buddsoddi cysylltiedig
- Osgoi gwrthdaro rhwng rhanbarthau ac o fewn rhanbarthau mewn cystadleuaeth

#### ch) Tai

- Ystyried gwneud amcangyfrif ar y cychwyn o'r angen am dai gydag ymarferiad cenedlaethol a/neu'n rhanbarthol gydag ymarferiad fesul cam i bennu'r cyfeiriad ar gyfer datblygu cynaliadwy
- Hyrwyddo dewisiadau/technolegau tai cynaliadwy, fel saerño oddi ar y safle

#### d) Trafnidiaeth

- Nodi anghenion a blaenoriaethau seilwaith trafndiaeth cenedlaethol a rhanbarthol allweddol
- Annog newid moddol yn genedlaethol gyda chynlluniau 'sydd yn yr arfaeth'
- Mynd i'r afael â'r cysylltedd Gogledd-De
- Datblygu parthau lefel uchel i flaenoriaethu cysylltedd ffisegol a rhithwir
- Cyfarwyddo CDSau i nodi prosiectau rhanbarthol allweddol
- Cefnogi trafndiaeth gyhoeddus a gwledig cynaliadwy a dichonadwy ar gyfer Gogledd Cymru a Chanolbarth a De-orllewin Cymru

#### dd) Ynni

- Nodi a chefnogi ardaloedd datblygu strategol sy'n canolbwyntio ar fathau o ynni
- Darparu fframwaith i nodi ardaloedd strategol ar gyfer mathau ynni gwahanol
- Cyfarwyddo CDSau i nodi prosiectau rhanbarthol allweddol
- Lloïo gweithredwyr y rhwydwaith trydan i fodloni galw'r dyfodol a helpu cwrdd â thargedau Cymru ar gyfer ynni adnewyddadwy

### Dylai'r FfDC ganolbwyntio ar...

#### e) Dŵr a Llifogydd

- Nodi a chefnogi risgiau ac anghenion cynlluniau rheoli traethlin a chynlluniau morol a chysylltu'r prosesau cynllunio rheoli basn afon a chynllunio defnydd tir
- Cyfarwyddo CDSau i nodi prosiectau rhanbarthol allweddol, gan weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddiffinio seilwaith hollbwysig (anghenion y presennol a'r dyfodol)

#### f) Amaethyddiaeth / Economi Wledig

- Nodi ble mae'r diwydiant amaethyddol yn amlwg a lle mae angen rhoi ystyriaeth i gefnogi'r sector a / neu ei arallgyfeirio
- Cyfarwyddo CDSau i nodi ardaloedd bras a phenderfynu pa gamau rhanbarthol ac is-ranbarthol y gall fod eu hangen

#### ff) Mwynau a Gwastraff

- Nodi canolfannau datblygu mwynau a gwastraff strategol nac ardaloedd ehangu arfaethedig
- Cynnal ymarferiad 'cydbwysu' cenedlaethol er mwyn deall cyfanswm y galw a'r galw net
- Cyfarwyddo CDSau i nodi a rheoli prosiectau a mentrau rhanbarthol allweddol

#### g) Amgylchedd Naturiol

- Nodi ardaloedd gwarchodedig a gwerth uchel
- Nodi a chynnwys seilwaith adnoddau naturiol allweddol e.e. Llwybr Arfordir Cymru
- Ar ôl Brexit, helpu trosi dynodiadau amrywiol Natura 2000
- Cefnogi dyfodol y sector coedwigaeth a chydabod yr effaith ar yr amgylchedd naturiol yn ehangach
- Gan weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'i Ddatganiadau Ardal, cyfarwyddo CDSau i ystyried yr amgylchedd naturiol ar y raddfa ranbarthol a mabwysiadu ymagwedd fwy integredig rhwng yr amgylchedd naturiol, twf cynaliadwy, cyfleoedd economaidd (fel eco-dwristiaeth) a rôl yr amgylchedd naturiol mewn testunau iechyd a newid hinsawdd.

#### ng) Tir a'r Amgylchedd Adeiledig

- Nodi asedau sy'n bwysig yn genedlaethol i'w gwarchod a'u cefnogi
- Nodi a chefnogi safleoedd datblygu strategol a diwydiannau blaenoriaeth
- Cyfarwyddo CDSau i nodi a chyflawni mentrau a/neu brosiectau rhanbarthol

## 5.4 Sut ddylai'r FfDC gefnogi datblygu polisi

Er mwyn helpu cyflawni'r deilliannau a eiriolwyd uchod, dylai'r FfDC gefnogi datblygu polisi trwy ddefnyddio'r pum dull o weithio a fynnir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru):

### Dylai'r FfDC...

- i. Bennu gweledigaeth glir ar gyfer y Gymru a garem;
- ii. Atal problemau rhag digwydd neu waethygu;
- iii. Cael ei ddatblygu i adlewyrchu'r amrywiaeth a'r amrywiadau rhwng pobl Cymru;
- iv. Annog cydweithio ar draws sectorau a phartneriaeth; ac
- v. Ystyried natur gydberthynol themâu polisi a chefnogi ymagwedd systemau cyfan at gynllunio.

